

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 248

Pris £1

Mis Hydref 2022



Marjorie Thomas

Coed y Wern Ddu

Gwarant Archeb Barhaol**Standing Order Mandate**I'r Rheolwr *To the Manager*..... Banc/ Cymdeithas Adeiladu *Bank/ Building Society*

Debydwch o fy nghyfrif £10.00 ar y 3ydd o fis Ragfyr bob blwyddyn gan ddechrau ar y 3ydd o Ragfyr 2022 neu nes y byddaf yn eich hysbysu'n wahanol.

Please debit £10.00 from my account on the 3rd of December annually starting on the 3rd of December 2022 or until I advise you to the contrary.

Yn daladwy i:

Payable to:

Banc	Enw'r Cyfrif	Rhif Didoli	Rhif y Cyfrif
Barclays	Cwmni	20-98-68	13980030

Enw(au) ar y Cyfrif

*Name(s) on the Account*Cod Didoli ___ -- ___ -- ___ *Sort Code*

Rhif y Cyfrif

--	--	--	--	--	--	--	--

Account Number

Eich Cyfeiriad

Your Address

Cod Post/Post Code

Rhif Ffôn/ Phone Number

Llofnod/ Signature:

Dyddiad/Date:


Dychweler y ffurflen hon, os gwelwch yn dda, i'r Trysorydd:

Please return to the Treasurer: Eyrion Thomas, 4 Rolls Avenue, Penpedairheol, Hengoed, CF82 8HP

NID I'R BANC/NOT TO THE BANK**PWYLLGOR a SWYDDOGION****Cadeirydd:** Robert Dutt**Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Trysorydd: Eyrion Thomas e.thomas119@btinternet.com**Golygydd:** Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151**Golygydd Lluniau:** Mary Jones**Cynorthwy-ydd:** Jan Penney**Gweplyfr/ Face book:**  Papur Bro Cwmni **Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Dilys Williams**Gwefan:** Menter IaithSir Caerffili.cymru/ **e-bost:** Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamarycwmni@yahoo.com**Argraffir gan Tower Print, Bedwas****Cedwir yr hawl i addasu erthyglau yn unol â gofynion golygyddol**



Colofn y Dysgwyr

Ann Lewis

Cyfarchion tymor yr hydref atoch i gyd. Rydyn ni'n parhau i ddarllen gwaith y bardd T Llew Jones ond hefyd yn cofio mai ym mis Hydref, Hydref 21, 1966, y digwyddodd trychineb Aber-fan. Dyma gerdd T Llew Jones am y drychineb. Mae e'n siarad am stori'r pibydd o Hamelin a aeth a'r plant i ffwrdd am byth ac yn meddwl bod yr un peth wedi digwydd yn Aber-fan.

Aber-fan

I Hamelin erstalwm

Os yw'r hen stori'n ffraith,

Fe ddaeth rhyw bibydd rhyfedd

Yn gwisgo mantell fraith.

A'r pibydd creulon hwnnw

A aeth a'r plant i gyd

A'u cloi yn ol yr hanes,

O fewn y mynydd mud.

A Hamelin oedd ddistaw

A'r holl gartrefi'n brudd,

A mawr fu'r galar yno

Tros lawer nos a dydd.

Distawodd chwerthin llawen

Y plant wrth chwarae 'nghyd,

Pob tegan bach yn segur,

A swm pob troed yn fud.

Trist iawn fu hanes colli

Y plant diniwed gwan –

Yn Hamelin erstmalwm,

Heddiw yn Aber-fan.

parhau : to continue

trychineb : disaster

pibydd : piper

am byth: for ever

erstalwm : a long time ago

ffraith : a fact

mantell fraith : a speckled cloak

creulon : cruel

cloi : to lock

mud : silent

prudd : sad

galar : grief

'nghyd : together

tegan : toy

segur: unused

diniwed : innocent

Merched y Wawr yn y Fan

Mae blwyddyn gweithgareddau Merched y Wawr yn dechrau ym mis Medi, ac eleni benderfynon ni ddechrau mewn steil – gyda the prynhawn yn hen blasdy'r Fan ar gyrion Caerffili. Cawsom de parti go iawn yn wir, gyda digonedd o frechdanau amrywiol (a di-grwst) a dewis hael o deisennod bendigedig, heb sôn am y cyflenwad cyson o de a coffi.

Er mwyn gwneud yn siŵr y byddwn yn mwynhau'r bwyd hyn i gyd, gweinwyd posel lemwn hanner ffordd trwy'r pryd. Mae posel yn gymysgedd o felyn wy, llaeth twym a siwgr a roddwyd yn y dyddiau gynt i glaf "i godi chwant bwyd arno" yn ôl y diweddar Minwel Tibbott, yr awdurdod ar fwydydd traddodiadol, yn ei llyfr *Geirfa'r Gegin*. Er bod pob un ohonom yn holliach, cawsom flas ar y posel - ac roedd yn amlwg iddo wneud ei waith: ychydig iawn o friwsion yn unig oedd ar ein platiau ar ddiwedd y pryd.



Onid mae mwy o lawer i blasdy'r Fan na bwyd yn unig, a chawsom rywfaint o hanes yr hen dŷ gan ei berchennog presennol, Adrian Cole. Amlinellodd hanes y teulu Lewis a gododd y plas yn nyddiau Elisabeth I, gan ddefnyddio cerrig nadd o gastell Caerffili. Efallai y byddai modd ystyried hynny yn enghraifft gynnar o ail-gylchu, ond mae'n debycach o adlewyrchu breintiau bonedd y cyfnod. Nhw oedd yr awdurdod yn eu bröydd oherwydd roedd rhaid i'r goron ddibynnu arnynt i gadw heddwch a threfn - os nid y gyfraith bob amser. Eglurodd Adrian i ni fod y Lewisiaid, fel teuluoedd bonedd eraill Morgannwg yn y cyfnod hwnnw,

yn elwa ar ysbail y morladron oedd yn hwylio Môr Hafren yn oes Elisabeth.

Ni fu'r Fan yn gartref i'r Lewisiaid am yn hir. Erbyn 1616 Castell Sain Ffagan oedd prif gartref y teulu. O hynny ymlaen dirywiodd cyflwr plas y Fan ei hun a'i dai allan hefyd. Mae rhai ohonom yn cofio'r plas yn adfail, a hyfryd yw gweld y gwaith a wnaethpwyd i'w adfer. Mor braf oedd cael croeso o'r newydd o fewn y muriau hynafol hyn.

Braf hefyd oedd croesawu pawb yn ôl ar ôl y gwyliau hir, ac i weld wyneb newydd yn ymuno gyda ni hefyd.

Croeso mawr i Lyn Llywelyn! Ac roedd yn bleser arbennig i gael cwmni Jên Dafis, ein Swyddog Rhanbarth weithgar. Cynhalion ni gyfarfod bach anffurfiol o'r gangen ar ddiwedd y te parti, ac wrth i ni drafod rhaglen y misoedd nesaf, trefniadau ymaelodi, dosbarthu'r Wawr ac ati, manteisiodd Jên ar y cyfle i sôn rhywfaint am gynlluniau'r rhanbarth am y dyfodol.

Aeth hi ymlaen wedyn i'n llongyfarch fel cangen ar ein gweithgarwch, ar lwyddiannau rhai o'n haelodau yn y cystadlaethau cenedlaethol - ac ar ein trefnusrwydd hefyd.

Waw! Diolch Jên. Roeddem i gyd yn gadael y Fan yn teimlo'n llawn mor falch o'n hunain â'r hen fonedd fu'n teyrnasu yno yn y dyddiau a fu, er yn barotach o lawer na nhw i gadw'r gyfraith - ac i gefnogi'r Gymraeg a'r mudiadau sy'n ei chynnal!




Yr Hen a'r Newydd

Mae capel Siloh, Ystrad Mynach, wedi hen gau ei ddrysau fel capel a hen ail-agor fel canolfan gymunedol. Lle bu ysgol Sul, cwrdd gweddi a chymanfa, bellach mae cyfarfodydd cymdeithasol, grwpiau crefftau, cylch Ti a Fi, a gwersi Tae Kwondo.

Rhyfedd felly oedd gweld bod rhywun wedi clymu blodau i reilins Siloh fel teyrnged i'r ddiweddar Frenhines Elisabeth II. Ni fu Ei Mawrhydi ar gyfyl Ystrad Mynach erioed, am wn i, ac rwy'n gwybod i sicrwydd ei bod yn Bennaeth ar yr Eglwys Anglicanaidd yn hytrach nag yn aelod o Eglwys Bresbyteriaidd Cymru (yr enwad a sefydlodd Siloh ac sydd yn dal i berchen yr adeilad).

Rwy'n ysgrifennu'r geiriau hyn yn fuan wedi marw'r Frenhines, ac ar adeg pan fod hen ddefodau claddu teyrn yn dominyddu'n cyfryngau. Dyma ganu clychau eglwysi a thanio gynnu: y ffyrdd ymarferol a hynafol o gyhoeddi newyddion pwysig yn y dyddiau pell hynny cyn dyfodiad telegraff na theleffon, heb sôn am radio na theledu. Dyma ffurfioldeb a rhwysg y seremoni o gyhoeddi enw'r brenin newydd, a'i hawl i'r orsedd, a hynny yng nghysgod y tŵr Normanaidd yng Nghastell Caerdydd.



Ond cymysgedd o'r hen a'r newydd oedd i'w weld yn nefod y cyhoeddi ei hun. Gwisg fodern ac arfau cyfoes oedd gan rai o'r milwyr oedd yn cymryd rhan, ond cleddyfau a gwisgoedd a ddatblygodd yn y ddeunawfed ganrif gan rai eraill. Siwt a thei oedd am y rhan fwyaf o'r gwahoddedigion, ond roedd sawl un wedi gwisgo lifrai o'r oes o'r blaen, ac roedd gwisg Herodr Cymru wedi dod yn syth o'r Oesoedd Canol neu o becyn cardiau.

Roedd geiriad y datganiad ffurfiol yn perthyn i oes a fu hefyd, yn ein hatgoffa am y dyddiau gynt pan fyddai ymladd am y goron rhwng yr etifeddion posibl a rhyfel agored rhwng perthnasau. Roedd cyhoeddi hawl sicr a chyflawn y brenin newydd yn allweddol er sicrhau ei afael ar rym a heddwch yn y wlad. Cyhoeddwyd hawl Siarl III i'r orsedd gyda geiriau a luniwyd yn gyntaf yng ngolau kannwyll. Ond ynganwyd y geiriau hynny yn Gymraeg yn gyntaf yn y seremoni eleni- a dyma dorri tir gwbl newydd. Dyma ffrwyth rhyfedd brotestiadau



Cymdeithas yr Iaith a'r holl ymdrechion di-drais dros hawliau'r iaith ddegawdau yn ôl.

Fe'm tarodd fod yr hen a'r newydd wedi eu cymysgu eto yn y blodau sy'n gwywo ar reilins Siloh heddiw. Mae'r blodau, yn eu siacedi plastig, yn perthyn i'r oes hon, ond mae'r arfer o roi blodau i'r meirw yn un hynafol dros ben. Filoedd o flynyddoedd cyn i'r Beibl ddisgrifio bywyd dyn fel blodyn bregus (Job 14.1-2), roedd y Neanderthaliaid, rhagflaenwyr *homo sapiens*, yn rhoi blodau gyda chyrrff eu meirw. Darganfuwyd sawl enghraifft o hynny yn Ogor Shanidar yn Irac yn ddiweddar. Roedd olion cyrrff dynol yno, wedi eu cymysgu gydag olion blodau. Tyfodd a gwywodd y blodau hynny dros 64,000 o flynyddoedd yn ôl.

Traddodiad a ddatblygodd yn ystod y ganrif hon yw'r arfer o roi blodau yn y manau sy'n gysylltiedig â rhywun sydd wedi marw, yn hytrach na'u rhoi ar y bedd ei hun neu ar gofeb berthnasol. Ond mae rhoi blodau i'r meirw yn

draddodiad sy'n henach o lawer na hanes ei hun.

Y Pibgorn Hud /The Magic Hornpipe

Nofel ar gyfer plant yn eu harddegau cynnar yw hon. Mae yn un o sawl llyfr sydd wedi ymddangos yn ddiweddar am Hanes Cymru. Wedi blynyddoedd o ddysgu hanes Lloegr mewn ysgolion, o'r diwedd daw ein hanes ni i'r brig.

Mae Gareth Evans wedi creu stori wedi'i lleoli yn y Chweched Ganrif. Roedd y Rhufeiniaid wedi cilio o'r tir ond wedi gadael eu hiaith (Lladin) ar eu hôl. Yn y nofel mae trefi a phlastai Rhufeinig wedi dechrau dirywio gan nad oedd gan y boblogaeth gynhenid y sgiliau i'w cynnal a'u cadw.

Mae hon yn oes ansefydlog mewn hanes. Doedd dim dim "gwledydd" fel sydd nawr. Ni ddaeth y rheiny am bum can mlynedd arall. Yr hyn oedd yn bodoli oedd "ardaloedd" a llwythau. Roedd y teimlad o berthyn yn ymwneud â phobol yn hytrach na lleoedd.

Prif gymeriad y stori yw Ina sy'n byw yng Nghaerwent. Mae hi'n un-ar-ddeg mlwydd oedd a newydd golli ei mam a'i chwaer hynaf i'r pla. Brythoneg a Lladin yw prif ieithoedd yr ardal. Mae Ina yn gymeriad cryf. Mae'n gallu darllen ac ysgrifennu (yn Lladin), ymladd, marchogaeth, a chwarae pibgorn ei mam: merch anarferol iawn. Penderfyna Gwrgant, ei mentor, ei danfon i gwrnt Caradog i gwblhau ei haddysg yn fenyw fonheddig. Chwalir y cynlluniau. Mae cipio, mordaith, creulondeb, caethwasiaeth, dianc a chyfeillgarwch yn digwydd blith draphlith drwy'r llyfr.


Mae anturiaethau Ina yn mynd â ni i Ddyfnaint, Ynysoedd Scilly ac i Frythonia (Gogledd Sbaen). Troeon drwy'r llyfr sylweddolais absenoldeb o deimlad o lle'r oeddem, oherwydd yr iaith a'r bobol oedd yn bwysig, nid y lleoliad. Mae agwedd at iaith wedi trawsnewid erbyn hyn, yn enwedig yn Lloegr, yn gyfan gwbl. Derbyniai bobol fod ieithoedd eraill o'u cwmpas, i'w gweld yn ddigon hapus, pan nad oedd pob dim yn ddealladwy iddynt.

Yn ystod yr oes yma, heb drafnidiaeth, ac eithrio'r ceffyl, mae'n syndod faint o symud oedd yn digwydd. Dyma stori sy'n datgelu oes sydd mor wahanol i'r presennol, gan gyflwyno agweddau sy'n gwbl estron i ni. Wrth i'r stori ddatblygu sylweddolwn hefyd bod nifer o bethau heb newid. Stori i'w mwynhau yw hon, sydd hefyd yn ein haddysgu am adeg mewn hanes na cheir mewn llawer o lyfrau ffuglen. Fe wnes i fwynhau'r stori ddwywaith, unwaith yn y Gymraeg ac unwaith yn Saesneg - sef cyfieithiad Jane Burnard.


Ceir nodyn hanesyddol ar ddiwedd y fersiwn Gymraeg lle ceir eglurhad o gefndir y stori. Teimlaf fod y nodyn hwn o chwe deg tudalen a hanner braidd yn hir a chymhleth, er mor bwysig. Mae *Preface* o ychydig dros dudalen a hanner yn y fersiwn Saesneg ar ddechrau'r llyfr, sydd llawer gwell oherwydd mae hwn yn ein galluogi i ddeall y sefyllfa cyn darllen y stori. Ysgrifennwyd y *Preface* mewn iaith fywiog i ni ddysgu popeth sydd angen ei wybod i werthfawrogi'r oes. Llyfr i blant yw e wedi'r cyfan. Gyda'r rhagarweiniad Saesneg ceir rhestr o leoedd â'i henwau Lladin a Chymraeg yn agos i'r blaen. Dyw'r rhestr yma ddim yn ymddangos tan ddiwedd y fersiwn Gymraeg. A dweud y gwir, ni welais i hyn tan i fi orffen y llyfr - roedd hyn yn rhwystredig ar y naw. Serch hynny, wnaeth hyn ddim amharu ar fy mwynhad o'r llyfr.

Dylid cofio nad plant yn unig sydd am ddysgu am hanes Cymru. Codwyd cenedlaethau o Gymry ar hanes y wlad dros y ffin. Yng nghefn y ddwy fersiwn o'r Pibgorn Hud cawn restr o "Nofelau â blas hanes Cymru arnynt" - lluniau'r cloriau a broliant. Bydda i yn sicr yn cadw'n llygaid ar agor amdanant. Beth amdanoch chi?

Mary Jones



Enillydd Gwobr Goffa Daniel Owen



Ceir sawl rheswm dros beidio eisiau gorffen llyfr ac mae bywyd yn rhy fyr i orffen llyfr sydd ddim yn plesio. Doeddwn i yn wir ddim eisiau gorffen 'Capten' am reswm hollol wahanol. Mwynheais i e – a doeddwn i ddim am iddo orffen.

Seiliwyd 'Capten' ar hanes teulu'r awdur, Meinir Pierce Jones ei hunan, wrth iddi "baentio" llun o ardal Morfa Nefyn a'i phobol ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae hi wedi poblogi'r ardal â chymysgedd o ddychymyg a ffeithiau ac mae'r ddau yn asio i greu awyrgylch hynod. Dwy ddim wedi darllen llyfr ers 'Sgythia' (Gwyn ap Gwilym) sy'n llwyddo i gyfleu teimlad ardal ac oes mor effeithiol mewn dull sy'n ymddangos mor diddafferth â heb ddisgrifio'n orhelaeth.

1893 yw cyfnod agoriadol y stori. Bu John Jones (hen dad-cu'r awdur) bant ar y môr ers dros flwyddyn, a'i wraig Elin yn disgwyl yn eiddgar am ei ddychweliad. Ymestynnai absenoldeb morwyr am flynyddoedd yr adeg honno - dyddiau olaf llongau hwyllo. Roedd gwybodaeth am raffau a hwyliau yn dechrau darforda dynion cymwys i weithio ar long fel y 'Cambrian Queen', llong y Capten, yn prinhaus.

Mae problemau'r capten yn adlewyrchu'r hyn sydd yn digwydd yn gyffredinol hyd a lled y wlad - nid dim ond yn ei gornel ef ohoni. Datblygiad y rheilffyrdd hefyd oedd yn effeithio ar y diwydiant morwrol. Gyda theithio ar drên yn dod, roedd llai o alw am longau bach i gario nwyddau i'r porthladdoedd bychain. Roedd y gwaith yn diflannu mor gyflym â'r grefft o hwyllo - amser trist i bobol fel y Capten.


Ceir tristwch yn y llyfr yn aml, ond fel bywyd ei hun mae yna gymysgedd o ysgafnder a hiwmor. Cefnogai teuluoedd a chymdogion yr ardal ei gilydd gan gyfrannu at gymuned glos iawn.

Llyfr i'w ddarllen yn araf yw hwn. Wrth arafu mae'r darllenwr yn elwa dipyn o fwynhau'r iaith a ffordd o fyw oes a fu. Dyw e ddim fel llyfr ditectif sy'n annog troi'n gyflym i'r dudalen nesaf er mwyn datrys y dirgelwch ac ateb pob cwestiwn yn daclus ac yn dwt. Does dim diwedd i bob edafedd yn yr hanes yma ac mae'r ffaith hyn yn cyfrannu at realiti hanes cyndeidiau'r awdur.


Teimlaf fod 'Capten' yn gofiadwy ac yn bendant yn un ddylai fod ar restr darllen pawb. Un "ar gyfer y silff" sydd ddim yn mynd i siop elusen wedi'i ddarllen unwaith. Gwerth £10 orau'r flwyddyn.

Mary Jones

Lluniau Dawn Chivers



Grŵp Dydd Gwener



Caradog

Ewch ar daith i fyny drwy ffordd osgoi Bargod, ac i lawr i'r pen arall heibio i'r orsaf. Yna, yn lle dilyn yr heol tuag at Aberbargod, ewch o dan y draphont ar hyd Factory Road hyd nes cyrraedd y cyffordd nesaf. Mae'r heol i fyny Cwm Rhymni yn troi nôl mewn siâp pedol wrth fwrw ymlaen tuag at Gefn y Brithdir a'r Brithdir.

Ond ewch yn syth yn eich blaen a byddwch yn teithio ar hyd Cwm Ysgwydd Gwyn. Mae'r heol, ar ei ffordd i'r Deri, yn dod i Deras Groes-faen, enw sy'n ein hatgoffa o'r lofa a fu'n wynebu'r teras ac a fu'n cyflogi llawer o'r trigolion. Roedd y lofa yn wynebu'r teras gan ymestyn yn ôl i'r Heolddu ar ymylon comin Gelligaer.

Ar waelod Cwm Ysgwydd Gwyn fe welir olion pompren a'r enw traddodiadol ar hon yw Pont Caradog. Pont garreg sydd bellach yn adfail yw hon. Ond bu yn bont ar gyfer teithwyr a cheffylau hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dywedir ei bod yn nodi safle hen ryd Silwraidd a Rhufeinig ar draws yr afon Deri. Tyfodd y chwedl gan ddweud i Caradog, brenin y Silwraidd, gerdded dros y bont honno. Ni wyddys a yw'r stori yn wir ond mae hi'n ein hatgoffa o un o gymeriadau pwysicaf ein hanes.

Un o bedwar llwyth Prydeinig oedd y Silwraidd, pobl â 'wynebau tywyll a gwallt cyrliog' a oedd yn byw yn yr ardal yr ydym ni'n ei hadnabod bellach fel tiroedd Gwent a Morgannwg. Roedd y Groes-faen, felly, yng nghalon y diriogaeth. Tad Caradog oedd Cynfelyn ac mae'n debyg mai hwn yw Cymbeline yn nramâu Shakespeare. Un arall a arweiniodd gwrthwynebiad i'r Rhufeiniaid oedd y frenhines Buddug a adwaenir hefyd fel Boadicea neu Boudica.

Bu'r Silwraidd yn un o'r rhwystrau mwyaf anodd a wynebai'r Rhufeiniaid wrth iddynt fwrw ati i goncro Cymru tua 48 O.C. Gwelir olion y goncwest ger castell Caerdydd; mae olion ar dir Tŷ Bryncenydd y tu ôl i gastell Caerffili. A gwelwch gae mawr gwag y drws nesa i eglwys Gelligaer lle mae'r gwair a'r pridd yn gorchuddio gweryll Rufeinig. Draw yng Nghaerllion ar Wysg (Caerleon) gallwch weld baddon Rufeinig wedi'u hadfer ac amffitheatr Rufeinig hefyd. A dyna pam mae enw pob un o'r manau hyn yn cynnwys "Caer".

Trwy dwyll dywedir i'r frenhines Cartimandua roi Caradog, neu Caractacus, yn nwylo'r Rhufeiniaid. Aed ag e i Rufain lle bu'n rhaid iddo ddirodded gwawd y dinasyddion wrth iddo orfod cerdded drwy'r ddinas mewn cyffion. Dywedir, fodd bynnag, iddo gadw'i urddas a thrwy hynny, ennill parch ei oresgynwyr. Deallwn iddo siarad â'r awdurdodau yn Rhufain mewn modd hyderus ac urddasol. Pan gafodd ei ddwyn o flaen yr ymerawdwr Claudius I^{af} gwrthododd ei iselhau ei hun gan ddatgan,

"Wna i ddim plygu clun i'r un Ymerawdwr oherwydd rydw i'n frenin yn fy nglwad fy hun."

Oherwydd hyn penderfynwyd peidio â'i ladd. Myn chwedloniaeth iddo fynnu ei hawliau yn unol â'r dyfyniad uchod. Deallir iddo, hefyd, fethu deall trachwant y sawl fynnai adeiladu ymerodraeth ac iddo ddweud wrthynt, yn blwmp ac yn blaen,

"Mae gyda chi'r holl diroedd hyn yn barod. Pam ydych chi eisiau meddiannu Prydain?"

Mae hyn yn dangos i'n traddodiad o areithwyr tanbaid ymestyn yn ôl i'r cyfnod hwn oedd tua 50 mlynedd cyn geni Crist.



Caradog neu Caractacus

Cyhoeddwyd cyfres o erthyglau rai blynyddoedd yn ôl yn "Tua'r Goleuni" ar hanes lleol. Teimlwyd efallai ei bod yn bryd ailgyflwyno'r rhain. Hon oedd yr erthygl gyntaf yr adeg honno.....



SADYRNAU SIARAD 2022



Tymor Yr Hydref-Autumn

10:00-12:00

Medi 24 September @ Caffi'r Ffynnon, Argoed

Capel Bedyddwyr Argoed *Baptist Chapel, High Street,*
Argoed, NP12 0HG

Hydref 29 October @ Ty Rhydychen/Oxford House

Grove Road, Rhisga, NP11 6GN

Tachwedd 26 November @ Ffair Nadolig Menter Caerffili

Caffi Llancaiach Fawr Cafe

Nelson, Treharris CF46 6ER



Croeso mawr i bawb - *Everybody Welcome*


kirabissexementercaerffili.cymru

01443820913

RHIF EBUSEN GORESTREDIG 1105172

MERCHED Y WAWR CWM RHYMNI

Nos Fercher, 19 Hydref 2022
am 19.00 (bydd y cyswllt Zoom ar agor o 18.45)



CATHRYN CHARNELL WHITE

Pennaeth y Gymraeg ag Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth,
a Chyfarwyddwr Bwrdd Rheoli Llenyddiaeth Cymru

'Golwg ar feirdd benywaidd Cymru a'u chwiorydd Celtaidd'

Cysylltwch â gaynorw555@gmail.com i dderbyn y ddolen Zoom

Parc Undod, Malgrat de Mar Mai 26ain - Mehefin 1af, 2022

gan Wendy Lewis

Bedwar ugain a phump o flynyddoedd yn ôl daeth cychod pysgota o borthladd cysglyd bach Malgrat de Mar i achub y llong *Ciudad de Barcelona*, a fu ar ei ffordd i Ryfel Cartref Sbaen, pan drawyd hi gan dordipos o long danfor ffasgaidd o'r Eidal, ychydig oddi ar yr arfordir. Roedd yn cario gwirfoddolwyr rhyngwladol - gan gynnwys Harry Dobson o'r Rhondda ac Alun Menai Williams o Gilfach Goch, a oedd, fel fy ewythr Sidney, yn dod i gefnogi llywodraeth ddemocrataidd Sbaen yn erbyn gwrthryfelwyr Franco.

Ni chafwyd cychwyn addawol i'n taith i Gatalonia. Oherwydd salwch, problemau teithio a achoswyd gan gyfyngiadau Covid a'r bygythiad o ryfel yn Wcráin ar y gorwel, doedden ni ddim yn siwr a fyddai seremoni agoriadol Parc Undod ym Malgrat - a ohiriwyd yn ystod y clo mawr a'i gynnal yn rhithiol y llynedd - yn debyg o ddigwydd. Ond o'r diwedd daeth diwrnod ein hymadawiad, a phan fu'n rhaid i'm chwaer dynnu yn ôl o'r daith, camodd cymydog caredig i mewn a rhoi pas i fi i'r orsaf, dim ond i gael gweld bod y trê'n o Gaerffili wedi'i ganslo; felly, gyrodd fi dros y mynydd i Gaerdydd. Ymunais â'm cyd-deithwyr â chwpanaid o de gan setlo lawr ar gyfer y daith i Lundain; ond sylweddol ni yn Paddington bod gennym brin ugain munud i gyrraedd man cychwyn Eurostar ar draws Llundain yn St Pancras, heb sôn am yr awr angenrheidiol i fynd drwy drefniadau mewnfudo. Defnyddiodd Olwen ei ffon ddall hudol i'n gadael ni drwodd gydag ond eiliadau i sbario - neu a oedden nhw wedi atal y trê'n er mwyn cael gwared arnom? Cyrhaeddodd Baris a llwyddo i gyrraedd Gorsaf Austerlitz ar gyfer cymal nesaf ein taith. Yno, yn eistedd yn yr haul, yn yfed coffi o gwpanau papur, sylweddolais fod fy ffôn ar goll; a bod Meic, hefyd, wedi'i dargedu gan ladron ffônau symudol. Roedd fy meibion Carwyn a Tad, cyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymini gyda ni ar y daith.


Gadawodd trê'n y nos Baris, yn llawn heicwyr yn gwynto o fwg coed, a safai gyda'u sachau teithio yn y coridor, am nad oedd cerbyd bwyta. Roedd y cerbyd cysgu â bynciau o dri ar ben ei gilydd yn rhy isel i ni allu eistedd arnyn nhw. Cafwyd noson anghysurus ac yn y diwedd cyrhaeddodd Latour de Carol yn y bore.

Roedd hwn yn fyd gwahanol yn uchelderau'r Pyreneau. Roedd y mynyddoedd caregog ithfaen ag eira ar eu pennau yn edrych i lawr ar y pentrefi oedd a thyrrau eglwysig Romanésg. Roedd y coffi a'r croissants yn y caffi ger yr orsaf yn flasus dros ben wedi pedair awr ar ddeg heb luniaeth. Roedd gan y dref gysylltiad hanesyddol â'n siwrnai, am



mai i'r lle yma, wedi gorchfygiad terfynol y Weriniaeth gan Franco ym mis Chwefror 1939, dihangodd cannoedd a miloedd o ffoaduriaid ar eu ffordd i Ffrainc, a nodwyd hyn gan blac ar wal yr orsaf.

Treulio y daith yn y trê'n gwag o Latour de Carol i Barcelona yn canu, ac roedd y swyddog tocynnau wrth ei bodd. Tynnodd hi ein lluniau, a chodi ond hanner pris y tocynnau arnom, gan ddweud iddi redeg allan o bapur a bod y derbyniad ar ei pheiriant tocynnau trydanol yn wan. Dywedodd wrthym am groesi'r cledrau i ddal trê'n Malgrat, felly bant â ni i'n cyrchfan derfynol.





Ymgartrefon ni yn y gwesty ym Malgrat. Tref wedi'i rhannu yw hon. Roedd y cyrchfannau gwyliau dros bob man ar hyd yr arfordir yn rhan o gynllun Franco i ariannu ei gyfundrefn gydag arian o'r diwydiant twristiaeth. Fodd bynnag, roedd yr hen dref yn hyfryd. Ar ben y bryn, y gellid ei gyrraedd ar reilffordd halio (*funicular railway*), roedd hen gaer, erbyn hyn yn erddi cyhoeddus yn llawn bougainvillia a choed orennau, ac o fewn canghennau'r rhain canai nico a'r hyn a edrychai fel caneri dihangol. Roedd y tai yn y strydoedd cul wedi'u paentio ag ocr cynnes a therracotta, a darparai'r coed gysgod oer braf yn y sgwariau â chaffis o'u cwmpas.

Siaredid Catalan ym mhobman - yn y siopau, y caffis a'r strydoedd. Cawsom groeso cynnes wrth i bobol adnabod y profiad cyfochrog rhwng Cymru a Chatalonia. Y ddwy yn genedl fach dan dra-arglwyddiaeth ymerodraeth a fu unwaith yn bwerus, a gwerthfawrogwyd yn fawr ein mynegiant cerddorol o undod.


Ein digwyddiad cyntaf oedd cyflwyniad yn yr *Archivos* gan ddisgyblion ysgol uwch a fu'n astudio hanes y *Ciudad de Barcelona*. Darllenon nhw, yng Nghatalan a Saesneg, rai o'u sylwadau ynglŷn â'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu. Roedden nhw wedi cael gwybod mai gwrthdrawiad rhwng dwy ochr oedd y rhyfel; ond gwelsant nawr mai rhyfel o syniadau oedd. Cawsant eu synnu bod miloedd wedi dod o bob cyfandir i amddiffyn democratiaeth yn eu gwlad nhw. Gwelodd gwirfoddolwyr y Frigâd Ryngwladol, pe na bai Franco a'i gynghreiriaid, Hitler a Mussolini, yn cael eu hatal yn Sbaen, byddai ffasgiaeth dreisiol yr unben yn fygythiad i heddwch dros y byd - ac felly y profodd. Rhyfel Sbaen oedd pennod agoriadol yr Ail Ryfel Byd.



Y nesaf ar y llwyfan, adroddodd y rheiny ohonom â chysylltiadau teuluol â'r *Ciudad de Barcelona* storiâu ein perthnasau. Disgrifiodd un o Seland Newydd daith ei ewythr o 12,000 o filltiroedd i Sbaen - ond i farw dan y deciau pan

suddwyd y llong gan dorpido, a hynny mewn saith munud. Roedd gan bob un stori i'w hadrodd, faint bynnag y ceisiodd deugain mlynedd o unbennaeth gladdu'r hanes. Disgrifiodd fy mab Tad sut ddaeth o hyd i ffeiliau FBI Sidney ar-lein. Roeddent yn paentio darlun clir o sut, yn ystod gormes wleidyddol cyfnod MacCarthy, cafodd gweithredoedd Sidney yn Sbaen effaith ar ei deulu yn America wedi'i farwolaeth. Siaradodd nithoedd, neiaint ac wyrion y gwirfoddolwyr Prydeinig ac Americanaidd am ddatgelu'r hanesion cudd hynny, nifer o ddegawdau wedi digwyddiadau 1937. Roedd Harry Dobson, o Blaenclydach ac Alun Menai Williams o Gilfach Goch ymhlith y rhai ar y *Ciudad de Barcelona*, oedd yn cynnwys fy wncwl Sidney.

Cyfareddwyd y cerflunydd Rob Macdonald, a symudodd o Ganolbarth Lloegr i Sbaen, gan stori'r *Ciudad de Barcelona*. Darganfu fod un o'r un enw ag ef o Glasgow wedi bod yn un o ddioddefwyr y torpido, ac fe'i trawyd gan y ffaith y gellid clywed y sawl oedd o dan y deciau yn canu'r *Internationale* wrth i'r llong suddo.



Wendy gyda Carwyn a Tad

Byddwn yn cyhoeddi ail ran hanes Wendy yn rhifyn mis Tachwedd "Cwmni"

Gwneud rhywbeth ar wahân i tsytnei neu gyffaith...

Os bydd pwmpenni gyda chi yn eich gardd, mae'n rhaid rasio i gadw i fyny gyda'u tyfiant. Un funud babis bach maint eich bys sy'n cuddio dan y dail mawr cysgodol, a'r diwrnod wedyn dyma gawr o lysieuyn yn gorwedd fel ci cysglyd yng nghysgod y dail. Fel un sydd wedi colli'r ras yn erbyn y pwmpenni sawl gwaith erbyn hyn, mae cwpl o ryseitiau gen i sydd wedi eu defnyddio'n aml iawn eleni. Cofiwch, nid yw'r ryseitiau hyn yn addas ar gyfer pwmpenni mawr sydd wedi aeddfedu: mae plisgyn caled gan y rheiny, ac mae angen tynnu hwnnw a chael gwared yr hadau yn y cnawd hefyd os ydyn nhw wedi caledu.

Rysait 1



Mae'r rysait cyntaf yn addas ar gyfer pwmpenni bach - neu gorbwmpenni! - maint *courgette* arferol. Bydd angen rhyw bump ohonynt ar gyfer pryd i ddau. Golchwch nhw, ac yna sychwch nhw a'u torri'n gylchoedd tenau - bydd angen defnyddio cyllell finiog.

Yna toddwch ychydig o fenyn a llwyaid o olew olewydd mewn sosban neu ffrympan drom, ac ychwanegwch y tafelli bychan. Cadwch y gwres yn isel a throwch y llysiau yn drwyadl, cyn rhoi clawr arnynt a'u gadael ar wres isel iawn am 10 munud. Yna ychwanegwch dair neu bedair hoelen o arleg, wedi eu gwasgu'n stwnsh, gan eu cymysgu'n drwyadl gyda'r corbwmpenni. Rhowch

y clawr arnynt eto, a'u gadael i goginio'n dawel am ryw hanner awr neu ragor. Mae'r coginio tawel hwn fel petai'n denu blas o'r llysieuyn, ac rwy wedi gadael hwn am awr a rhagor (ar wres isel, isel) heb niwed iddo.

Pan fydd y cyfan yn feddal a'r tafelli'n toddi i'w gilydd, ychwanegwch halen a phupur yn ôl eich dymuniad, a hefyd bwsh hael o bersli wedi ei falu'n fân. Rwy'n ei weini gyda reis brown wedi ei ferwi, a chaws mâl dros y cyfan.

Rysait 2

Dyma'r un i'w ddefnyddio pan fyddwch wedi colli'r ras yn erbyn y pwmpenni - a byddaf yn gwneud hynny'n aml iawn. Dyma rysait syml dros ben!

Mewn sosban fawr a thrwchus, ffriwch winwysyn mawr mewn olew olewydd, ac yna ychwanegwch bedwar neu bum hoelen garleg; pupur gwyrdd wedi ei dorri'n ddarnau maint eich bawd; pedair tomato, hefyd wedi eu torri'n ddarnau - a phwmpen gymedrol ei maint, hefyd wedi ei thorri'n ddarnau. Rhowch gwpanaid o reis hir brown a chwpanaid o ddŵr ar ben y llysiau, cymysgwch nhw'n dda, a gadewch i'r gymysgedd ddechrau berwi.

Yna trowch y gwres i lawr, fel bod y cyfan yn mudferwi am awr. Bydd angen troi'r gymysgedd bob hyn a hyn, gan ofalu bod digon o hylif yn y pan i ddigoni'r reis. Mae llawer o ddŵr mewn pwmpenni a thomatos, ac mae eu sudd yn cymysgu gyda'r dŵr sydd yn y pan i roi blas i'r reis. Pan fydd y reis yn barod, mae'r pryd cyfan yn barod.

Byddwn i'n ychwanegu persli mâl at hwn hefyd cyn ei weini, ac er ei fod yn bryd addas iawn i lysieuwyr, mae hefyd yn mynd yn dda gyda bwyd sbeislyd fel selsig neu gig mewn saws tsili ac ati.

Hanes CwmNi

Darlithiau amrywiol amdan hanes/ diwylliant lleol Gwent

Various lectures about history/ culture in Gwent

Ble? / Where

Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach

CF82 7EP



Pryd? / When?

Dydd Iau Hydref 6ed

Thursday October 6th

7pm



Siaradwr y noson / Speaker on the night

Dr Elin Jones



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gwent



Llyfrau'r Enfys

Ychydig flynyddoedd yn ôl bellach, mentrais agor Siop Lyfrau Cymraeg yng Nghaerffili, yn un o unedau'r farchnad. Mwynheais y profiad yn fawr, gan wneud llawer o ffrindiau. Yn anffodus, nid oedd digon o fusnes i sicrhau fy mod yn ei chadw ar agor, a daeth cyfle i symud lan i Ganolfan Soar ym Merthyr. Mae nifer o 'nghwsmeriaid wedi gofyn am lyfrau a chardiau ac rwy'n hapus i ddod â'r eitemau hyn i Gaerffili.

Bues yn cadw stondin yn Eisteddfod y Cymoedd, ac yn ymweld â rhai o Ysgolion Cymraeg y cwm ar achlysuron cyfleus. Cefais fy annog yn ddiweddar i roi mwy o gyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth hwn, ac ar wahoddiad y golygydd i ysgrifennu darn i'r Papur Bro, dyma fi yn ufuddhau.

Bydd amryw yn fy nghofio fel Vikki Pearce, tra bydd eraill yn fy adnabod fel Vikki Alexander. Rwyf innau a'm teulu wedi byw yn Llanbradach ers yn agos i ugain mlynedd. Onid yw amser yn hedfan!! Os ydych am gysylltu gyda mi neu archebu llyfrau, cardiau neu CDs, yna defnyddiwch fy e-bost llyfraurenfys@gmail.com neu ffonio ar **07956555265**. Os gwnewch ymweld gyda'n safle ar Wep Lyfr neu Face Book - **Llyfrau'r Enfys**, cewch lawer mwy o wybodaeth am yr hyn sydd gennym ar gael yn y siop.

Edrychaf ymlaen at gwrdd â chi.

Vikki.

Hanes y Mudiad Meithrin

gan Clive Williams

Yn haf 1982 cefais ymweliad annisgwyl gan Margaret Francis, Swyddog Datblygu Mudiad Ysgolion Meithrin (Mudiad Meithrin bellach) dros Forgannwg Ganol (Sir: 1974 hyd 1996) ...

Roedd 'person' wedi rhoi fy enw i Margaret gan eu bod nhw'n meddwl efallai y gallwn i eu helpu i sefydlu Cylch Meithrin yn Aberbargod. Daeth i'r amlwg yn ddiweddarach mai'r 'person' oedd Dai Mogford, prifathro ein hysgol gynradd Gymraeg leol, Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod. Tybed pam roedden nhw'n meddwl y dylai dyn di-briod heb blant fel fi fod ag unrhyw ddiddordeb mewn ysgol feithrin? Rwyf hefyd yn cofio Dai yn rhagweld, gyda'r nifer cynyddol o blant roedd yr ysgol yn eu cymryd o Aberbargod, na fyddai'n rhy hir cyn y byddai angen ysgol ei hun ar y pentref. Ac felly, ar ôl ychydig o berswâd, cytunais i helpu.

Ar fy nghais, cytunodd Kath Szerard, ein Cynghorydd Sir Plaid Cymru, a'r Rheithor Richard Gray o eglwys blwyf Sant Sannan ar unwaith i helpu. Roedd gennym hefyd griw o rieni ifanc yn barod ac yn fodlon ein cynorthwyo. Felly, yn driw i'r traddodiad Cymreig, fe sefydlon ni 'bwyllgor'. A chefais y fraint o gael fy ethol yn Ysgrifennydd Cylch Meithrin Aberbargod. Cynigiodd y Rheithor ddefnyddio neuadd eglwys San Pedr, a dechreuodd grŵp o wirfoddolwyr brwdfrydig weithio ar y gwaith adnewyddu. Wrth gwrs, cymerodd yr holl waith paratoi amser, a rhwystrwyd ein hagoriad arfaethedig ar Ddydd Gŵyl Dewi 1af Mawrth 1983 gan gwmp o eira ... felly, agorodd ein meithrinfa ei drysau i'n hanner dwsin o blant bach cyntaf ychydig wythnosau'n ddiweddarach ar Ddydd San Padrig.

Roedd y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yn arwain at alw cynyddol am fwy o ysgolion meithrin, gan roi llwyth o waith trwm ar Bwyllgor Morgannwg Ganol y Mudiad. Felly, yn hydref 1982 cafodd llawer o'r gwaith ei ddatganoli i ranbarthau fel Cwm Rhymni. At ei gilydd, roedd 64 o Gylchoedd Meithrin yn y sir ar y pryd. Yn y cyfarfod a alwyd i sefydlu Pwyllgor Cwm Rhymni, cefais fy ethol yn Gadeirydd. A'n Swyddog Datblygu newydd ar gyfer y rhanbarth oedd Rita Jones. Dim ond un o'n prosiectau arloesol niferus oedd prynu carafán! ...i bwrpas hysbysebu gwaith y Mudiad. Fe'i haddurnwyd yn hardd ar y tu allan gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni dan ofal eu hathro celf Mike West.


Dydych chi byth yn ymwybodol o'ch galluoedd eich hun nes bod person galluog addas yn eu hadnabod. A digwyddodd hyn i mi yng ngwanwyn 1987; diolch i'r cynnig a gyflwynwyd gan Cennard Davies (Pennaeth Astudiaethau Ieithyddol Prifysgol Morgannwg), fe'm penodwyd yn Is-Gadeirydd Pwyllgor Morgannwg Ganol Mudiad Ysgolion Meithrin ...i wasanaethu yn y rôl honno am ddwy flynedd cyn cymryd yr awenau fel Cadeirydd. Fodd bynnag, am resymau personol, ymddiswyddodd y Cadeirydd o fewn llai na mis ...a chefais fy hun yn y Gadair! Ac yn ystod fy nghyfnod fel Cadeirydd fe gyrhaeddod ni garreg filltir bwysig ... 100 Cylch Meithrin yn y sir! Agorodd ysgol gynradd Gymraeg y pentref, Ysgol Bro Sannan, yn 2004. Darparir addysg uwchradd Gymraeg yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ers 1981.



Am fwy na saith mlynedd roeddwn i wrth fy modd gyda fy amser gyda Mudiad Ysgolion Meithrin. Byddwn wedi bod wrth fy modd yn parhau am lawer hirach pe na bai amgylchiadau personol wedi ymyrryd. Y peth roddodd fwyaf o lawenydd i mi oedd adeg y Nadolig pan es i o un Cylch Meithrin i'r llall ...fel Sion Corn!

Ein Stori Ni

Sefydlwyd Mudiad Meithrin (Mudiad Ysgolion Meithrin gynt) yn 1971 er mwyn meithrin tirwedd gyfoethog o brofiadau chwarae a dysgu cyfrwng Cymraeg i blant o enedigaeth i oed ysgol ...ond dechreuodd 'ein stori ni' yn ddiweddarach, yn 1982 ...



Heb os nac oni bai, y seiliau y codwyd ein mudiad arnynt oedd **Arweinwyr a Chynorthwyr ein Cylchoedd Meithrin**, Roedd eu rôl yn rhan annatod o'n stori lwyddiant, gan mai nhw oedd y rhai ar y 'talcen glo' yn rhyngweithio â'r plantos bach. Does gen i ddim digon o eiriau o ganmoliaeth am eu gwaith diflino a'u hymroddiad! Rhan hanfodol arall o gadw ein cylchoedd meithrin i fynd oedd y **gweithgareddau codi arian** parhaus a wnaethom ...o'r ffeiriau sborion a drefnwyd gan ein grwpiau unigol ...i'r ffeiriau haf a drefnwyd gennym ar lefel ranbarthol.

Roedd gan bob rhanbarth ei **Swyddog Datblygu** ei hun, a oedd yn gyfrifol am gynorthwyo neu arwain gweithgareddau cynllunio strategol, a chydlynu strategaethau a gweithgareddau o ddydd i ddydd yn seiliedig ar unedau. Gan weithio ar y cyd â'r pwyllgor lleol, roedd y rôl yn cynnwys sefydlu cylchoedd meithrin newydd a chefnogi grwpiau presennol; a meithrin perthnas proffesiynol ag unigolion ac asiantaethau eraill. Swydd gyfrifol ...swydd llawn amser ar gyflog rhan amser...mynychu cyfarfodydd yn aml a oedd yn ymestyn i nosweithiau hwyr, a theithio i gyfarfodydd cenedlaethol ...yn bendant ar gyfer y person sydd wedi ymrwymo'n gryf i achos y Gymraeg .

Un o ddatblygiadau arloesol ein Grŵp Cwm Rhymni oedd **ein carafán**, a oedd wedi'i haddurno'n hyfryd a lliwgar ar y tu allan, ac yn glyd ar y tu mewn. Yn llawn llyfrau a theganau a thafleuni gwybodaeth i'r rhieni, fe'i cymerwyd o le i le i hybu ein gwaith. Fe wnaethom hyd yn oed ei fenthyg i ardaloedd eraill. Ar un achlysur roedd yn mynd ar fenthyg i griw yn y gogledd, wedi eu tynnu tu ôl i gar ein Cyfarwyddwr Cenedlaethol J. Bryan Jones. Gan deimlo eisiau bwyd, penderfynodd Bryan stopio mewn tafarn am ychydig o ginio. Cafodd cwsmeriaid y dafarn eu syfrdanu o weld 'carafán hipi' yn tynnu i mewn i'r maes parcio ...ond wedi cael tawelwch meddwl o weld gŵr bonheddig mewn siwt lwyd smart yn dod allan o'r tu ôl i olwyn y car!

Mae **Sefydliad Bernard Van Leer** sy'n ariannu ac yn rhannu gwybodaeth am waith ym maes datblygiad plentyndod cynnar yn deillio o gymynrodd Bernard Van Leer. Diwydiannwr a dyngarwr o'r Iseldiroedd, yw e ac mae'r sefydliad yn canolbwyntio ar blant ifanc, addysg gynradd ac ieuencid, a phlant ifanc difreintiedig. Ym 1986 gwnaeth Mudiad Ysgolion Meithrin gais i Sefydliad Bernard van Leer am arian i ariannu cynllun a fyddai'n recriwtio a hyfforddi arweinwyr cylchoedd chwarae newydd mewn nifer o ardaloedd difreintiedig a oedd yn cynnwys Sir Morgannwg Ganol. Gyda'r cais yn cael ei dderbyn, penodwyd Yvonne Owen, boneddiges o Batagonia, yn Gyfarwyddwraig i oruchwylio'r prosiect.

Buom yn ffodus i gael gwasanaeth **Dr. Anne Brooke**, awdures Gymreig a aned yn America a oedd wedi dysgu Cymraeg, ac yn byw yn Nhreforci . Oherwydd ei chefnidir di-Gymraeg roedd Anne yn awyddus i roi cyfle i rieni di-Gymraeg i ddilyn ei straeon gyda'u plant, felly mae nifer o'i llyfrau yn cynnwys cyfieithiad Saesneg llawn o'r testun. Bu Anne yn gweithio'n agos gyda ni ym Morgannwg Ganol tra'n ysgrifennu ei llyfrau. Mae'r rhain yn cynnwys y ddwy gyfres boblogaidd iawn, Mabon a Mabli, Llyfr Ti a Fi, a llawer mwy.

Gyda'r newid enw o Fudiad Ysgolion Meithrin i Fudiad Meithrin daeth y newid i **logo'r Mudiad**. Rwy'n falch o weld hen logo'r Mudiad yn dal i gael ei ddefnyddio ... er eu bod rhyw 7,000 o filltiroedd i ffwrdd yn ysgolion Cymraeg y Wladfa! ...gwisgwyd hi gan blant Meithrin Ysgol Gymraeg Gaiman , yn dathlu 'Gŵyl y Glaniad'. Mae pob 28ain o Orffennaf yn wyliau yn Nhalaiith Chubut, Patagonia, yr Ariannin; dathliad glanio'r 153 o ymfudwyr Cymreig cyntaf o'r llong hwylio 'Mimosa' ... gan arwain at 'Y Wladfa'.





Cwrs Tecstiliau Llaw

gyda Menna Evans o Naturesthreadss



03.10.22/10.10.22/ 17.10.22/24.10.22

2-4pm

Canolfan y Glowyr, Caerffili, CF83 1BJ

Cwrs 4 wythnos
yn cynnwys Macrame, ffeltio,
brodwaith, crosio a gwehyddu



Ewch i
www.mentercaerffili.cymru
ac archebwch le

£36

Go to
www.mentercaerffili.cymru
to book your place



AM WYBODAETH PELLACH/FURTHER INFORMATION:
LOWRIJONES@MENTERCAERFFILI.CYMRU



CLWB MIRI

Boreau Gwener - Friday Mornings

10:00-11:30

@ Canolfan Gristnogol Siloh

Siloh Christian Centre, Ystrad Mynach

Sesiwn hwyl drwy'r Gymraeg i blant 0 - 3 Oed
yn cynnwys diod a byrbryd a phaned i'r rhiant / gwarchodwr
*A fun session through the medium of Welsh for Children Aged 0-3 years
Includes a drink and snack and a drink for parents / guardians.*

£1 Talu ar y drws
Pay on the door

am fanylion pellach / for further details :
kirabissex@mentercaerffili.cymru



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Corbwmpen

“Beth yw'r gair Cymraeg am *courgette*?” oedd y cwestiwn a gefais yn ddiweddar gan un ffrind, wrth i fi gynnig hanner dwsin ohonyn nhw iddi. A'r ateb wrth gwrs yw “A beth yw'r gair Saesneg amdano?” Gair Ffrangeg yw *courgette*, bachigyn y gair *courge*, sy'n golygu “pwmpen” (*vegetable marrow*). Daw'r gair Cymraeg o'r hen enw Saesneg am y llysieuyn hwn, sef *pumpion*. Enw'r Ffrancwyr ar bwmpen fach yw *courgette*. A dyna beth yw'r llysieuyn hwn yn ei hanfod, wedi'r cyfan – pwmpen wedi ei thynnu cyn iddi dyfu i'w llawn faint.

Ond tybed a oes gair Cymraeg am y *courgette* sydd mor ffasiynol heddiw? Ni fyddai ei ffan mwyaf yn ceisio



honni bod hwn yn llysieuyn blasus iawn, ac ni allai honni chwaith ei fod yn arbennig o faethlon, ond mae wedi dod yn boblogaidd dros ben. Tybed – o gofio mor bwysig yw golwg pryd o fwyd - a yw ei liw yn denu'r llygad, a'r ffaith does dim llawer o flas iddo yn ei wneud yn dderbyniol i'r bobl hynny sy'n gwrthod llysiau gwyrdd eraill oherwydd eu blas cryf?

Mae *courgettes* yn ychwanegiad diweddar i'r llysiau yn ein basgedi siopa, er nid yw'r bwmpen ei hun yn llysieuyn newydd i'n gerddi.


Daeth o ganolbarth yr Amerig i Ewrop yn y 16G – gyda phlanhigion eraill megis tatws a thomatos.

Pan oeddwn i'n ifanc byddai pobl yn tyfu pwmpenni i'w llawn maint, er mwyn eu troi'n tsytnei neu gyffraith, neu eu harddangos mewn sioeau. Roedd pwmpen anferth yn sicr o haeddu ei lle mewn arddangosfa ffrwythau a llysiau. Byddai'r llysiau mawr hyn yn gogoneddu mewn gwasanaethau diolchgarwch hefyd. 'Slawer dydd doedd neb yn bwyta pwmpenni cyn iddynt gyrraedd maint sylweddol – sydd yn digwydd yn rhyfeddol o gyflym, gyda llaw.

Ond beth yw'r gair Cymraeg am *courgette*? Ar hyn o bryd rydyn ni'n dilyn arfer y Saeson wrth ddefnyddio'r gair Ffrangeg. Serch hynny, mae modd bathu gair Cymraeg i'r llysieuyn. Os dilynwn ni batrwm y gair “corgi”, sy'n gyfuniad o'r rhagddodiad *côr-*, sy'n golygu rhywbeth byr neu fach a'r gair “ci”, yna'r gair Cymraeg fyddai “corbwmpen”. Sut mae hwnnw'n swnio i chi?



Ac yn fy ngardd i? Ar un adeg y byddwn yn llwyddo i dyfu pwmpenni bob blwyddyn yn ddi-ffael. Yna, am ryw reswm, daeth cyfnod hesb pan ffaelodd pob planhigyn a blannais. Rhoddais y gorau i'w tyfu. Ond eleni gwelais ddau blanhigyn oedd yn amlwg wedi eu gwrthod gan siopwyr eraill – a chefais lwyddiant o'r newydd eleni gyda'r ddau blanhigyn gwrthodedig!



**CLWB CERDD
CWM RHYMNI**
Rhif Elusen: 1089092

Dydd Sadwrn, 15fed o Hydref


2:30

Ysgol Lewis i Ferched

Cerddorfa Siambr Gwent

Colofn Dafydd Islwyn

Y dydd o'r blaen wrth chwilio am gyfrol o farddoniaeth y Parchedig Dafydd Hughes Jones, Y Rhyl, ond heb ei chael, deuthum ar draws llyfryn. Ei deitl ydy "Barddoniaeth ar gyfer Ysgol Lewis, Pengam", dan olygyddiaeth T. Mathews, 1915. Rai dyddiau'n ddiweddarach roeddwn yn darllen Blwyddlyfr U.C.A.C., Awst 1991. Cofnodais Ddydd Iau, yr 22ain o Awst: I Stiniog o'r Bala dros y Mignant. Galw yn Siop Lyfrau'r Hen Bost a phrynu llyfryn Barddoniaeth Pengam... Ar y clawr mae enw'r disgybl G. M. Evans, Form 4A ac uwchben mae Form 3A. O agor y llyfr gwelir ar y dudalen flaen yr enw G. Emlyn Evans, 4, Woodland Place, Bedlinog, mewn llawysgrifen oedolyn. Aeth y llyfryn o Fedlinog i Flaenau Ffestiniog ac i Fargod mewn saith deg chwe blynedd!



Yn ei ragair mae Tom Mathews, athro Daearyddiaeth a Chymraeg yr ysgol o 1911 hyd nes i'w iechyd dorri yn 1915, yn egluro pam y cyhoeddwyd y llyfryn: "Ceir yn y casgliad bychan hwn gymaint â gollwyd o farddoniaeth ddylai pob bachgen wybod amdano heb wrido o gywilydd."

Ers cyhoeddi'r llyfr gant a saith mlynedd yn ôl, mae gwaith ymchwil sylweddol wedi'i wneud yn hanes llenyddiaeth Gymraeg gan arbenigwyr cadarn eu barn. Ceir yn y llyfryn dri chywydd byr gan Sion Cent, un o feirdd yr Uchelwyr. Yn ei nodiadau ar y bardd mae Tom Mathews yn dweud iddo gael ei eni yn Abertridwr tua 1323 a bu farw yn Llangain (Kentchurch) Swydd Henffordd yn 1416. Yn ôl Thomas Parry ym Mlodeugerdd Rhydychen 1962, blodeuai Sion Cent rhwng 1400 i 1430 ac meddai, "yr unig beth a wyddom amdano ydy fod ganddo gysylltiad â Brycheiniog a'r Gororau."

Yn y llyfrau ceir hefyd gerdd gan Rhys Goch ap Rhisiart, Cân y Fronfraith. Nododd Tom Mathews nad oedd llawer o wybodaeth ar gael am y gŵr. Cysylltir ef â Bro Morgannwg tua dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg. "Y mae hyn sydd ar gael o'i farddoniaeth yn llawn o swyn natur," oedd ei farn.

Ymhen blynnyddoedd cyhoeddwyd, yn dilyn gwaith ymchwil trwyadl, na weithiodd Rhys Goch ap Rhisiart erioed linell o farddoniaeth. Yr archdwyllwr, Iolo Morganwg (1747-1826) ddefnyddiodd ei enw wrth hen gerddi a rhai a ffigiodd!

Ganwyd Islwyn, y Parch William Thomas, 3ydd o Ebrill 1832 yn agos i'r Ynysddu, Cwm Sirhywi. Bardd adnabyddus arall a anwyd fisoedd yn ddiweddarach oedd Ceiriog, sef John Ceiriog Hughes. Ceir cerddi gan y ddau yn y gyfrol; ymysg y chwe cherdd gan Islwyn, ceir ei emyn adnabyddus 'Gwêl Uwchlaw Cymylau Amser'. Ceir hi hefyd ym Mlodeugerdd 1962, ond ni cheir hi yn Caneuon Ffydd 2002. Mae pedair cerdd boblogaidd Ceiriog yn llyfryn Pengam, a cheir dwy ohonynt ym Mlodeugerdd 1962 sef, 'Aros a Myned' a 'Nant y Mynydd'. Llinell gyntaf 'Aros a Myned' ydy "Aros Mae'r Mynyddau Mawr". Cyhoeddwyd hi gyntaf ym mugeilgerdd Alun Mabon, sef bugeilgerdd fuddugol y Genedlaethol, Aberdâr 1861, yr eisteddfod gyntaf yng nghyfnod cyntaf y Genedlaethol 1861 - 68. Y beirniad oedd Aneurin Fardd (1822-1904), athro barddol Islwyn. Yn y Genedlaethol, Aberystwyth, 1865, ymgeisiodd ugain bardd am y gystadleuaeth Cerdd ar y Testun, 'Y Fodrwy Briodasol'. Y bardd buddugol oedd Sarah Jane Rees (1839-1916), merch ddibriad o Langrannog. Heddiw rydyn ni'n ei hadnabod wrth ei henw barddol, Cranogwen. Roedd Islwyn a Cheiriog wedi cystadlu am y wobr o dair gini.

Pam, tybed, na chyhoeddwyd cerdd gan Aneurin Fardd, Aneurin Jones, yn y llyfryn? Ganwyd ef yn Nhŷ'r Eglwys, Bedwas, 27ain o Hydref 1822, ond â Melin Gelli-groes, Pontllanfraith a gysylltir y bardd a ymfudodd i'r 'Merica yn 1864. Yno bu farw ym mis Medi 1904. Cyhoeddwyd ym Marddoniaeth Pengam gerddi gan naw bardd lleol. Yn eu mysg leuan ap Iago, sef Evan James (1809-78); yn ogystal â "Hen Wlad Fy Nhadau" ceir dwy gerdd arall ganddo, "Y Sycamorwydden yn Ymyl y Nant" (sef Nant Bargod Rhymni, sy'n llifo i afon Rhymni ger traphont Bargod), a'r ail un, "Bugail Eglwysilan".

Ceir cywyddau yn y gyfrol, un gan Dafydd ap Gwilym (1340-70), y meist'r ar y mesur. Ond ni cheir yr un englyn! A oedd cymaint o fri ar y mesur, un o saith rhyfeddod barddoniaeth Gymraeg, ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf? Mae un gerdd gan Eifion Wyn, prif englynwr y cyfnod yn y gyfrol.

Hanes Hydref – a Thachwedd a Rhagfyr

Sut Hydref fydd hi arnon ni eleni, tybed? Wedi gwres eithriadol yr haf a aeth heibio, efallai cawn ni fis heulog braf i esmwytho'r siwrnai ymlaen i'r gaeaf. A dim ond wrth ysgrifennu'r geiriau hyn sylweddolaf am



y tro cyntaf mor rhyfedd yw ein defnydd o'r union un gair i olygu'r mis a'r tymor hwn o'r flwyddyn. Dyma'r mis pan fydd y dail yn troi lliw ac yn dechrau cwmpo, a'r dyddiau'n byrhau yn sylweddol. Ai dyna'r rheswm dros gyfuno'r mis a'r tymor: mae'r tymor newydd yn amlygu ei hun yn ystod y mis hwn?

Mae cenedlaethau dirifedi wedi edmygu gogoniant lliwiau'r hydref: dyma wyrth oesol sy'n dal i'n swyno ni heddiw. Ond daw enw mis Hydref o ddigwyddiad arall oedd yn rhan o fywyd beunyddiol am filoedd o flynyddoedd hefyd, ond go brin fod un o ddarllenwyr *Cwmni* yn gyfarwydd ag e heddiw. Cyfuniad o ddau air yw Hydref, sef *hydd* a *brefu* ac, i ddyfynnu iaith syber *Geiriadur Prifysgol Cymru*, mae'n cyfeirio "at yr adeg y brefa'r hydd am ei gymar". Sŵn tebycach i ruo na *brefu* yw hwn, fel rwy'n deall, ond sŵn oedd yn gyfarwydd iawn am ganrifoedd hyd yn oed yn y cymoedd hyn.

Mae'r bardd anhysbys a ganodd am ei dristwch wrth weld torri coed Glyn Cynon yn y 16eg ganrif "gan wŷr yr haearn duon" yn sôn am "haid o geirw cochion" yn ffoi i "ddugod Mawddwy" rhag y distryw.

Ac mae enw'r mis nesaf yn y calendr yn cyfeirio at ddistryw arall. "Lladdfa" yw ystyr wreiddiol y gair *tachwedd*, ac mae'r enghreifftiau hynaf o'r ystyr honno sydd gan y Geiriadur yn digwydd mewn cyd-destun ymladd a lladd gelynion. Ond mae'r defnydd o'r gair i olygu'r mis yn hen iawn hefyd, ac mae rheswm dros hynny. Mis y lladd oedd mis Tachwedd: lladd yr anifeiliaid hynny oedd i fwydo'r bobl dros y gaeaf. Byddai peth o'r stoc yn cael eu cadw er mwyn eu bridio, ond byddai'r gweddill yn cael eu lladd. Wedyn byddai'r cig yn cael ei halltu, ei fygu neu ei biclo er mwyn sicrhau cyflenwad o gig dros fisoedd caled y gaeaf. Dyna'r rheswm pam fu coelcerthi'n cael eu cynnau ym mis Tachwedd ganrifoedd cyn i Guto Ffowc a'i ffrindiau gynllwynio yn erbyn y brenin. Esgryn yr anifeiliaid a laddwyd oedd yn cael eu llosgi yn y coelcerthi hynny: *bonfires* oedd ynganiad cyntaf *bonfires*.

A dyma ni wedi dod trwy enwau dau fis sy'n tystio i fywyd yng Nghymru yn yr oesoedd gynt i fis Rhagfyr, mis olaf y flwyddyn yn draddodiadol. Mis y diwrnodau byrraf yw hwn i ni ac i'n cyndeidiau hefyd. Nid yw rhod y tymhorau ei hun wedi newid dim, er i fywyd pobl newid cymaint. Y gair *byr* yw gwreiddyn *Rhagfyr*, ond mae'r rhagddodiad, sef *rhag-*, yn fwy anodd ei esbonio. Cynnig y Geiriadur bedair prif ystyr i hwn, gan rannu'r rheiny wedyn yn sawl is-ystyr. Croeso i chi ddarllen y pedair colofn o brint mân a gysegrwyd i drafodaeth ar yr amryfal ystyron hyn! Mentraf arni a chynnig bod *rhag-* yma yn cryfhau *byr*. Mae hen enwau Cymraeg y misoedd yn cyfeirio at nodwedd amlycaf y mis hwnnw, a nodwedd amlycaf mis Rhagfyr yw ei ddiwrnodau byrion.

Difyr yw cymharu enwau Cymraeg y misoedd sydd yn ein cysylltu mor gadarn â'n hen hanes gyda'r ymgais a wnaed adeg y Chwyldro yn Ffrainc i ail-drefnu'r calendr ac ailenwi'r misoedd. Dechreuwyd ar yr arbrawf yn 1792, ac am ddeuddeg mlynedd roedd enwau'r misoedd yn Ffrainc, fel yn y Gymraeg, yn adlewyrchu'r tymhorau. Ond mae'r enwau hyn yn adlewyrchu bywyd Ffrainc hefyd: *Vendémiaire*, sef mis y cynhaeaf gwin, oedd enw *Medi!*

CLWB CERDDED

10:00 - 12:00

Medi 28 September

Bedwas - Cwrdd ym maes parcio Caffi'r Graig /
Meet in car park of The Rock Cafe **CF83 8EA**

Hydref 5 October

Sirhowy

Cwrdd wrth tafarn Halfway House / Meet at the Halfway House Tavern
NP12 2HT

Hydref 12 October

Llwybr Taf - Cwrdd yng Nghanolfan Garddio Caerffili/
Meet at Caerphilly Garden Centre **CF15 7UN**

Hydref 19 October

Bristol Terrace Bargod - Cwrdd ger mynedfa'r llwybr gerdded
Meet by Bristol Terrace walkway entrance **CF818RF**

Hydref 26 October

Llanbradach - Cwrdd gyferbyn Caffi Saveria/Meet opposite Cafe Saveria
CF83 3JZ

Tachwedd 2 November

ASDA Caerffili - Cwrdd yn y maes parcio/Meet in car park
CF83 3SX

Cyfarfod trefnu teithiau nesaf ar y diwedd

Rhaid gwisgo esgidiau cerdded addas

You must wear suitable footwear



Mwynhau'r
Gymraeg

lowrijones@mentercaerffili.cymru

01443 820913



MENTRAU IAITH

Rhif elusen gostredig: 1105172 Rhif cwmni: 5096968